# CANLLAW I GAEL TRWYDDED CERBYD HURIO PREIFAT

## EITEM 1- GWYBODAETH GYFFREDINOL

Cynigia'r llyfryn hwn gyfarwyddyd ar sut i ymgeisio am drwydded gyrrwr hurio preifat, trwydded cerbyd hurio preifat a thrwydded gweithredwr hurio preifat. Am ymholiadau ar sut i gael trwydded neu i ofyn cwestiwn cyffredinol am faterion trwyddedu:

| | |
|---|---|
| **Trwyddedu a Phrofi Cerbydau**<br>**Depo Cludiant Adran yr Amgylchedd a Thechnegol,**<br>**Ffordd Yr Abaty, Ystad Ddiwydiannol Wrecsam** | **Ffôn 01978 729600**<br>**Gwasanaeth Cwsmer**<br>**Llun-Iau 08.30 am - 4.30pm** |
| **Ymholiadau gorfodaeth, cyngor cyffredinol a chwynion**<br>**Adran Diogelu'r Cyhoedd, Stryd yr Arglwydd, Wrecsam,** | **Ffôn 01978 298990** |

**EITEM 2 – CYFLWYNIAD**

Yng Nghymru a Lloegr (tu allan i Lundain), y cyngor lleol sy'n cyhoeddi trwyddedau hurio preifat a cherbydau hacnai er mwyn rheoli gweithrediad diogel cerbydau hurio preifat a cherbydau hacnai.

Yn Wrecsam, yr Is-Adran Iechyd a Diogelwch a Thrwyddedu a leoli yn yr Adran Diogelu'r Cyhoedd, Adeiladau'r Goron, Stryd yr Aglwydd, Wrecsam, sy'n delio â materion trwyddedu a gorfodi.

Mae gan bob trwydded gyfres o amodau y gofynnir i ddeiliad trwydded gydymffurfio â nhw. Atodir copïau o'r amodau hyn at bob trwydded ac maent ar gael o'r cyfeiriad uchod. Cyhoeddir trwyddedau am gyfnod o flwyddyn.

## EITEM 3 – FFIOEDD HURIO PREIFAT

**Ar gyfer Ffioedd Hurio Preifat diweddar,**
**gwelwch [www.wrexham.gov.uk](http://www.wrexham.gov.uk) neu ffoniwch (01978) 729600**

**PWYSIG**
**NI DDERBYNNIR FFIOEDD HEB YR HOLL DDOGFENNAU PERTHNASOL**

**EITEM 4 – FFURFLENNI CAIS**

Mae ffurflenni cais ar gael o depo cludiant Adran yr Amgylchedd a Thechnegol neu'r Adran Diogelu'r Cyhoedd yn y cyfeiriad uchod.

**EITEM – 5 SUT I YMGEISIO AM DRWYDDED**

Lleolir Depo Cludiant Adran yr Amgylchedd a Thechnegol, ar Ffordd yr Abaty, Ystad Ddiwydiannol Wrecsam.

Galwch heibio i'n desg gwasanaeth cwsmer i ofyn am y ffurflenni er mwyn ymgeisio am y trwyddedau hurio preifat a ddymunwch. Gallwch ffonio (01978 729600) a gofyn i ni anfon ffurflenni cais i'ch cyfeiriad cartref hefyd.

Dylech ddod â'r ffurflenni cais cyflawn i'r depo ynghyd â'r dogfennau a'r ffioedd priodol. Byddwch yn cael rhif cais wedyn sy'n gyfeirnod unigryw a fydd yn ymddangos yn glir ar eich derbynneb. Bydd gofyn i chi ddyfynnu'r rhif cais hwn. Ni dderbynnir cais i adnewyddu trwydded fwy na mis calendr yn dilyn dyddiad dod i ben trwydded. Bydd unrhyw gais a wneir ar ôl hynny'n cael ei drin fel cais 'newydd' a bydd gofyn i chi fynd trwy'r un weithdrefn â'r un a bennwyd ar gyfer rhoi trwydded.

**EITEM 6 – GWEITHDREFN YMGEISIO AM DRWYDDED CERBYD HURIO PREIFAT**

I ymgeisio am drwydded cerbyd hurio preifat rhaid i chi:

A. gofio unwaith y caiff y cerbyd blât cerbyd hurio preifat mai dim ond gyrrwr hurio preifat trwyddedig all ei yrru.

B. gyflwyno ffurflen gais gyflawn ynghyd â thystysgrif MOT, dogfen gofrestru'r cerbyd neu fil gwerthu a dogfennau yswiriant (sicrhewch fod gan y cerbyd yswiriant ar gyfer hurio preifat).

C. mae'r meini prawf ar gyfer cerbydau yn Atodiad 1. Bydd gwiriad cydymffurfio o ran cyflwr a safonau'n ofynnol. Dylidnodi os yw'r cerbyd yn methu'r prawf ar unrhyw un o'r eitemau canlynol – llywio, teiars neu'r brâc – bydd ffi ailbrofi o £20.00.

D. Anfonir ffurflen adnewyddu i'ch cyfeiriad cartref bob blwyddyn (sylwer mai chi sy'n gyfrifol am sicrhau yr adnewyddir y drwydded cyn iddi ddod i ben). Dylech fynd i'r depo ar Ffordd Abaty gyda'ch ffurflen, tystysgrif yswiriant **wreiddiol,** tystysgrif gydymffurfio gyfredol a'r ffi briodol. Mae'r gweithdrefn hon yn cwblhau adnewyddu trwydded.

**EITEM 7 – Y GYFRAITH A'R AMODAU LLEOL SY'N PERTHYN I DRWYDDEDAU HURIO PREIFAT**

Mae'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n rheoli hurio preifat fel a ganlyn:

**Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.** Gallwch gael copi o unrhyw siop lyfrau HMSO. Mae copi o amodau trwyddedau ar gyfer gweithredwyr hurio preifat yn Atodiad 2.

**Canllaw Trosglwyddo / Ildio Trwydded Cerbyd Hacni / Hurio Preifat**

**Ildio**

- Os byddwch yn dymuno ildio trwydded Cerbyd Hur Preifat Cerbyd Hacni dylech fynd â'r Plât y Cerbyd Hur Preifat Cerbyd Hacni i Depo Gwasanaeth yr Amgylchedd Cyngor Bwrdeistref Wrecsam, De Ffordd yr Abaty, Ystad Ddiwydiannol Wrecsam , Wrecsam, LL13 9PE.

- Bydd y staff yn cymryd y platiau, gofyn i chi gwblhau Ffurflen Ildio / Trosglwyddo Plât Trwydded Cerbyd a stampio'r drwydded fel 'wedi ei ddileu' Caiff y drwydded ai dychwelyd atoch er eich cofnodion.

- Mae ildio Plât Trwydded Cerbyd am ddim.

- Sylwer na ellir cael ad-daliad ar Ffioedd Trwyddedu

**Trosglwyddo Cerbyd i Unigolyn Arall**

- Os byddwch yn dymuno trosglwyddo /gwerthu Cerbyd Hur Preifat Cerbyd Hacni i unigolyn arall (gyrrwr trwyddedig), mae'n rhaid i chi gwblhau'r Ffurflen ildio / Trosglwyddo (dolen). Ar ôl ei chwblhau dylid rhoi'r ffurflen i'r unigolyn y dymunwch drosglwyddo iddo, gyda chopi i Gwasanaeth yr Amgylchedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam er gwybodaeth.

- Mae'n drosedd gwerthu neu drosglwyddo cerbyd trwyddedig i unigolyn arall heb roi gwybod i'r Gwasanaeth Trwyddedu o fewn 14 diwrnod i'r trosglwyddo. Bydd camau cyfreithiol yn cael eu dechrau os bydd unrhyw unigolyn sy'n torri'r Ddeddf.

- Rhaid i'r unigolyn y mae'r cerbyd yn **trosglwyddo iddo** gwblhau Ffurflen Gais Cerbyd Hur Preifat / Cerbyd Hacni (ticiwch y blwch Trosglwyddo Perchnogaeth) a chynnwys y ffurflen Trosglwyddo / Canslo Plât Trwydded Cerbyd gan yr unigolyn sydd wedi trosglwyddo'r cerbyd. Rhaid i hyn hefyd gynnwys tystysgrif yswiriant dilys a'r ddogfen V5 neu ddogfen tystiolaethu bod y cerbyd wedi ei werthu.

- Cynghorir perchnogion newydd i ddarllen canllawiau ac amodau Cerbydau Hur Preifat / Cerbydau Hacni'r Cyngor cyn cytunir ar unrhyw werthiant. Ni allwn dderbyn cyfrifoldeb am unrhyw dwyllo neu weithgaredd twyllodrus rhwng y partïon cysylltiedig.
- Y ffi yw £36

(17/06/2016)

**ATODIAD 1**

# CYNGOR WRECSAM

## GOFYNION CERBYDAU HURIO PREIFAT

1 a Rhaid i'r cerbyd gael pedair olwyn ac isafswm o bedwar drws.
b Rhaid fod gan y cerbyd olwyn sbâr a digon o gyfarpar i osod yr olwyn sbâr os difrodir un o'r olwynion eraill.

2 Rhaid i faint peiriant y cerbyd fod yn 1400cc o leiaf.

3 Rhaid cyflwyno cerbydau i'w harchwilio mewn cyflwr glân ac addas i'f ffordd a dylai corff y cerbyd fod yn rhydd o unrhyw rwd.

4 Ni fydd cerbydau'n cael eu cyflwyno ar gyfer archwiliad os ydynt wedi eu difrodi mewn damwain a rhaid hysbysu'r Pennaeth Tai, Gwarchod y Cyhoedd a'r Amgylchedd o unrhyw ddifrod o fewn 72 awr o'r ddifrod yn digwydd.

5 Rhaid i'r cerbyd yrru ar y dde ac eithrio limwsinau estynedig.

6 Ni ddylai'r cerbyd fod o fath, cynllun nac ymddangosiad a fyddai'n peri i rywun gredu bod y cerbyd yn gerbyd hacnai. **Ni fydd cerbydau Austin FX4 (tacsis Llundain), Peugeot Expert / Tepee / Euro Taxi, Fiat Scudo, Citroen Dispatch etc yn dderbyniol.**

7 Rhaid i'r cerbyd allu cario o leiaf pedwar teithiwr yn ogystal â'r gyrrwr a dim mwy nag wyth teithiwr. Y lled sedd lleiaf derbyniol fesul unigolyn yw 410 milimetr ar bwynt lletaf y sedd. Bydd gan limwsinau isafswm o chwe sedd a mwyafswm o wyth.

8 Rhaid i'r cerbyd a'i holl ffitiadau a chyfarpar fod yn effeithiol, diogel a glân a dylent gydymffurfio â'r holl ofynion statudol perthnasol, gan gynnwys y rhai a geir yn y Rheoliadau Cerbydau Modur (Cynhyrchiad a Defnydd).

9 Rhaid i seddi'r cerbyd fod wedi eu clustogi'n briodol a bod yn rhydd o ddifrod.

10 Rhaid i lawr y cerbyd gael carped priodol neu orchudd priodol arall.

11 a) Rhaid cael digon o le yn y cerbyd i gario bagiau teithwyr a rhaid i'r lle hwn fod yn lân ac yn ddwrglos. Ni ellir gosod rac ar y to.
b) Gellir goso blwch ar y to os:
i) yw'n cydymffurfio â'r Rheoliadau Traffig y Ffordd (Cynhyrchiad a Defnydd) ac os yw'n briodol ar gyfer y math o gerbyd a ddefnyddir.
ii) yw'n gynhwysydd caeëdig (nid yn rac to agored â gorchudd rhydd).
iii) yw'n cael ei ddefnyddio i gario bagiau ychwanegol megis clybiau golff, bagiau mawr ayb ac nid ar gyfer cario nwyddau nac anifeiliaid byw.
iv) yw'r huriwr gyda'r cerbyd ar adeg defnyddio'r blwch to.
v) nad yw unrhyw ran o'r blwch na'i ffitiadau'n parhau ar y cerbyd pan nad yw'n cael ei ddefnyddio i gario bagiau ychwanegol.
vi) nad oes hysbysebion, geiriau na rhifau ar y blwch ei hun.
c) Na ddylai ol-gerbydion gael eu defnyddio gan unrhyw gerbyd hur preifat.

12 a) Rhaid i'r cerbyd gario diffoddwr tân powdr sych effeithiol sy'n pwyso o leiaf 1 cilogram. Bydd y diffoddwr wedi ei osod mewn man nad yw'n tarfu ar reolaeth y cerbyd ac lle na all aelod o'r cyhoedd darfu arno.

b) Rhaid i unigolyn medrus drin y diffoddwr tân yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio'n iawn.

13 Rhaid i'r cerbyd gario blwch cymorth cyntaf fel a ganlyn:

Bydd blwch cymorth cyntaf sy'n cynnwys:

i) chwe rhwymiad gludiog gwrthheintiol a lapiwyd yn unigol (plasteri)
ii) un rhwymyn mawr gwrthheintiol heb feddyginiaeth
iii) Dau rwymyn trionglog
iv) dau bin cau
v) clytiau gwlyb a lapiwyd yn unigol

yn cael ei gario yn y cerbyd bob amser wedi ei osod yn ofalus yng nghist y cerbyd i'w ddefnyddio mewn argyfwng. Ni fydd gofyn i yrwyr hurio preifat roi triniaeth cymorth cyntaf.

14 Rhaid i unrhyw fesurydd a roddir yn y cerbyd fod mewn man nad yw'n weladwy tu allan i'r cerbyd ond sy'n amlwg iawn i'r teithwyr tu mewn.

15 Os trwyddedir y cerbyd ar hyn o bryd gan y Pennaeth Tai, Gwarchod y Cyhoedd a'r Amgylchedd, bydd gofyn gosod y plât trwydded a gyhoeddir gan y Cyngor yn ddiogel tu allan i flaen a chefn y cerbyd mewn man amlwg ac mewn modd sy'n ei gwneud yn hawdd i swyddog awdurdodedig neu gwnstabl eu tynnu.

16 Ni fydd arwyddion, hysbysiadauk, hysbysebion, platiau, marciau, rhifau, llythrennau, ffigyrau, symbolau, emblemau na dyfeisiau'n cael eu harddangos ar, tu mewn neu o'r cerbyd ac eithrio'r rhai sy'n ofynnol dan ddarpariaeth statudol, is-ddeddfau neu a ganiateir neu a ofynnir gan unrhyw amod o drwydded hurio preifat a gyhoeddir gan y Cyngor mewn perthynas â'r cerbyd.

17 Gellir arddangos enw a rhif ffôn y gweithredwr ar ochr y cerbyd os yw'r cerbyd yn fws mini a gynlluniwyd i gario mwy na phedwar teithir ond llai nag wyth teithiwr mewn llythrennau neu rifau heb fod yn fwy na 6" (150mm) o uchder ond ni ddylai gynnwys y gair "cab" neu "tacsi/taxi". Ni ddylai unrhyw arddangosiad ar y ffenestr darfu ar weladwyedd na pheryglu diogelwch.

18 Os trwyddedir y cerbyd ar hyn o bryd gan y Cyngor, rhaid i rif y drwydded a nifer y teithwyr a ganiateir gan y drwydded fod yn glir y tu mewn i'r cerbyd er mwyn i deithwyr fod yn gallu eu gweld bob amser.

19 Rhaid i'r cerbyd feddu ar bolisi yswiriant neu ddiogeledd arall bob amser sy'n cydymffurfio â gofynion Rhan VI Deddf Traffig y Ffyrdd 1988.

20 Rhaid i'r cerbyd feddu ar dystysgrif MOT ddilys (os yw hyn yn briodol) a thrwydded ffordd gyfredol.

21 Bydd gan bob sedd yn y cerbyd wregys ddiogelwch.

*22* Rhaid i ddeilydd y drwydded roi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu yn ysgrifenedig cyn gosod system TCC yn y cerbyd. Ni fydd systemau TCC mewn cerbydau yn recordio sain, ac mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â thelerau'r Polisi Gosod a Defnyddio Systemau TCC mewn Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat.' Bydd perchennog y cerbyd yn sicrhau bod arwyddion priodol wedi eu harddangos yn y cerbyd, er mwyn iddynt fod yn weladwy tu mewn a thu allan i'r cerbyd yn unol â'r polisi."

23 **Amodau ychwanegol ar gyfer limwsinau estynedig:-**

a) Rhaid i'r cerbyd lwyddo mewn arolygiad cymeradwyaeth cerbyd sengl o'i gynllun a gwneuthuriad mewn gorsaf brofio'r Arolygiaeth Cerbydau. Rhaid cyflwyno'r dystysgrif gymeradwyaeth neu'r dystysgrif gydymffurfio i'r Awdurdod hwn ynghyd â dogfen gofrestru'r DVLA (V5) a thystiolaeth o ddyddiad gwneuthuriad y cerbyd.
b) Ni fydd hyd mwyaf yr 'estyniad' yn fwy na 120"/3048mm.
c) Ni fydd teithwyr yn eistedd yn y tu blaen i'r cerbyd.
d) Rhaid i'r cerbyd feddu ar deiars a bennir gan Ford USA h.y. cerbydau a gofrestrwyd cyn 1998 – 235/75R 15 108S (BF Goodrich Extra Load neu gyfwerth). Rhaid i fersiynau o 1998 feddu ar 225/70R 16 107T (atgyfnerthedig).
e) Bydd unrhyw wydr tywyll yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol a osodir allan gan yr Asiantaeth Gwasanaethau Gweithredwyr Cerbydau (VOSA). Gall y rhan ar gyfer teithwyr gael gwydr wedi ei dduo. Rhaid i'r holl wydr tywyll neu ddu gael ei osod yn unol â safonau ac ni fydd unrhyw ddiwygiadau o'r safonau hyn yn dderbyniol.
f) Ni chaniateir unrhyw fath o adloniant neu weithgaredd o unrhyw fath heb ganiatâd ysgrifenedig yr Awdurdod hwn.
g) Rhaid i gerbyd a neilltuir yn hollol ar gyfer plant dan 16 oed gario rhiant/gwarcheidwad neu hebryngwr a wiriwyd gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol (SCT). Bydd datganiad yn cael ei gwblhau gan y rhiant/gwarcheidwad sy'n gyfrifol am y daith cyn dechrau'r siwrnai a fydd yn manylu ar yr unigolion sy'n teithio ac enw a manylion cyswllt yr unigolyn a neilltuodd y cerbyd. Rhaid i'r gyrrwr gario copi o'r ffurflen hon.
h) Gellir gofyn i gerbydau prawf blinder metel yn ôl doethineb yr Awdurdod hwn. Y gweithredwr fydd yn talu am gost y prawf hwn.
i) Bydd diodydd meddwol a ddarperir yn y cerbyd dan delerau trwydded briodol sy'n perthyn i werthu neu gyflenwi alcool. Ar gyfer grwpiau o deithwyr dan 18 oed, rhaid defnyddio gwydrau a photeli plastig a rhaid cloi diodydd meddwol neu eu tynnu o'r cerbyd cyn dechrau ar y siwrnai.
j) Bydd yr amodau arferol sy'n ymwneud â thrwyddedu gweithredwyr a gyrwyr yn berthnasol.

## TRWYDDED CERBYD HURIO PREIFAT

Mae Cyngor Cyngor Wrecsam, dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a phob pŵer neu awdurdod arall sy'n eu galluogi **YN TRWYDDEDU TRWY HYN** y cerbyd sy'n dwyn y rhif cofrestru **«RegNo»**

y mae **«Name1»**

o **«Add11»** **«Add12»** **«Add13»** **«Add14»**

yn berchennog/berchnogion cyfrifol i ddefnyddio'r cerbyd at ddibenion hurio preifat yn y Fwrdeistref Sirol hon o'r dyddiad a nodir hyd at a chan gynnwys **«Expiry»** oni bai y gwaherddir neu y diddymir y drwydded, i gario dim mwy na **«Passengers»** o deithwyr (ac eithrio'r gyrrwr), yn amodol ar ddarpariaethau'r ddeddf ddywededig ac unrhyw statudau, gorchmynion, rheolau, rheoliadau ac is-ddeddfau a fydd mewn grym o bryd i'w gilydd mewn perthynas â cherbydau hurio preifat a pherchnogion, gyrwyr a gweithredwyr y rhain yn y Fwrdeistref Sirol ddywededig, ac yn amodol ar yr amodau a bennir yma.

DYDDIEDIG

__________________________________

**Pennaeth Tai, Gwarchod y Cyhoedd a'r Amgylchedd**

## ATODIAD

## AMODAU'R DRWYDDED

Diffiniadau: Yn yr amodau hyn, ac eithrio lle mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall, bydd y geiriau a'r mynegiadau canlynol yn golygu'r canlynol:-

Golyga **swyddog awdurdodedig** unigolyn a awdurdodir gan y Pennaeth Tai, Gwarchod y Cyhoedd a'r Amgylchedd i gyflawni dyletswyddau sy'n gysylltiedig â chyhoeddi trwyddedau hurio preifat a gorfodi deddfwriaeth sy'n perthyn i hurio preifat;

Golyga **Pennaeth Tai, Gwarchod y Cyhoedd a'r Amgylchedd** yr unigolyn a benodir i'r swydd honno yng Nghyngor Cyngor Wrecsam;

Golyga **perchennog** yr unigolyn y cyhoeddir trwydded cerbyd hurio preifat iddo gan y Pennaeth Tai, Gwarchod y Cyhoedd a'r Amgylchedd;

Golyga **gweithredwr** yr unigolyn y cyhoeddir y trwydded gweithredwr iddo gan y Pennaeth Tai, Gwarchod y Cyhoedd a'r Amgylchedd;

Golyga **cerbyd** y cerbyd y cyhoeddir y drwydded cerbyd hurio preifat ar ei gyfer;

Golyga **platiau** y platiau a gyhoeddir gan y Pennaeth Tai, Gwarchod y Cyhoedd a'r Amgylchedd i'w gosod ar y cerbyd ac a fydd yn cynnwys manylion y cerbyd, mwyafswm nifer y teithwyr i'w cario a rhif trwydded y cerbyd;

Golyga **rhif trwydded cerbyd** y rhif a roddir i'r drwydded cerbyd hurio preifat hon.

1. i) Bydd y cerbyd a'i holl ffitiadau'n cael eu cadw mewn cyflwr effeithlon, diogel a glân bob amser yn ystod bywyd y drwydded.
   ii) Bydd y cerbyd yn bodloni holl ofynion statudol a'r Rheoliadau Cerbydau Modur (Cynhyrchiad a Defnydd) a bydd ganddo dystysgrif gydymffurfio gyfredol a gyhoeddwyd gan y Pennaeth Tai, Gwarchod y Cyhoedd a'r Amgylchedd.
   iii) Rhaid i'r cerbyd arddangos treth cerbyd gyfredol bob amser.
   iv) Rhaid i'r cerbyd feddu ar dystysgrif prawf MOT ddilys bob amser (os yw hyn yn briodol).

2. Ni fydd y cerbyd yn cael ei addasu na'i newid o ran manylion, cynllun, cyflwr nac ymddangosiad yn ystod bywyd y drwydded heb gymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw y Pennaeth Tai, Gwarchod y Cyhoedd a'r Amgylchedd.

3. i) Bydd y platiau trwydded sy'n nodi bod y cerbyd yn gerbyd hurio preifat yn cael eu gosod tu allan i flaen a chefn y cerbyd mewn man amlwg heb fod yn is na'r bympers blaen a chefn, ac eithrio yn yr amgylchiadau a bennir yn Adran 75 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.

   ii) Bydd y platiau'n cael eu gosod mewn ffordd sy'n golygu na ellir eu tynnu ac na fyddant yn newid oherwydd symudiad y cerbyd. Byddant yn weladwy i gerddwyr a gyrwyr eraill. Byddant yn cael eu gosod mewn ffordd sy'n ei gwneud yn hawdd i swyddog awdurdodedig neu gwnstabl eu tynnu hefyd.

   iii) Bydd y platiau'n cael eu cadw'n lân ac ni fydd y rhif arnynt yn cael ei guddio mewn unrhyw ffordd, gan gynnwys oherwydd llaid, saim, budrwydd neu unrhyw beth arall.

4. Bydd y perchennog yn arddangos hysbysiad a gyhoeddir gan y Pennaeth Tai, Gwarchod y Cyhoedd a'r Amgylchedd mewn man sy'n weladwy i bobl sy'n teithio yn y cerbyd. Bydd hwn yn nodi rhif trwydded y cerbyd a nifer y teithwyr y caniateir iddo eu cario.

5. Bydd blwch cymorth cyntaf sy'n cynnwys:

   i) chwe rhwymiad gludiog gwrthheintiol a lapiwyd yn unigol (plasteri)
   ii) un rhwymyn mawr gwrthheintiol heb feddyginiaeth
   iii) Dau rwymyn trionglog
   iv) dau bin cau
   v) clytiau gwlyb a lapiwyd yn unigol

   yn cael ei gario yn y cerbyd bob amser wedi ei osod yn ofalus yng nghist y cerbyd i'w ddefnyddio mewn argyfwng. Ni fydd gofyn i yrwyr hurio preifat roi triniaeth cymorth cyntaf.

6. a) Bydd y cerbyd yn cario diffoddwr tân sy'n pwyso 1 cilogram o leiaf yn cynwys powdr sych. Bydd y diffoddwr tân yn cael ei osod mewn man na fydd yn tarfu ar reolaeth y cerbyd lle na all aelod o'r cyhoedd ymyrryd ag ef.
   b) Dylai unigolyn medrus drin y diffoddwr yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio bob amser.

**7.** a) Ni fydd arwyddion, hysbysiadau, hysbysebion, platiau, marciau, rhifau, llythrennau, ffigyrau, symbolau, emblemau na dyfeisiau'n cael eu harddangos ar, tu mewn neu o'r cerbyd ac eithrio'r rhai sy'n ofynnol dan ddarpariaeth statudol, is-ddeddfau neu a ganiateir neu a ofynnir gan unrhyw amod o drwydded hurio preifat.

b) Bydd arwydd gludiog a ddarperir gan y Pennaeth Tai, Gwarchod y Cyhoedd a'r Amgylchedd yn cael ei arddangos ar ben y ddwy ffenestr i deithwyr er mwyn bod yn amlwg i unrhyw un sy'n byrddio'r cerbyd. Bydd yr arwydd yn fwyafswm o 180mm X 130mm yn cynnwys y wybodaeth a bennir gan y Pennaeth Tai, Gwarchod y Cyhoedd a'r Amgylchedd yn allanol ac yn fewnol.

c) Gellir arddangos cysgod llygaid sy'n cynnwys enw'r gweithredwr hurio preifat ar ben y ffenestri blaen a chefn.

d) Rhaid i'r cysgod llygaid fod o fath a gymeradwywyd gan y Pennaeth Tai, Gwarchod y Cyhoedd a'r Amgylchedd cyn ei ddefnyddio.

e) Gall y cysgod llygaid gynnwys rhif ffôn a chyfeiriad gwefan y gweithredwr a bydd yn y fformat ganlynol:

| |
|---|
| 01978…..Tacsis Da 01978 ….<br>www.tacsisda.co.uk. |

f) Ni fydd y cysgod llygaid yn tarfu ar y ffenestr flaen.

g) **Os yw'r cerbyd yn fws mini a gynlluniwyd i gario mwy na 4 teithiwr ond llai nag 8 teithiwr,** gellir arddangos enw a rhif ffôn y gweithredwr ar ochr y cerbyd mewn llythrennau neu rifau heb fod yn fwy na 6" (150mm) mewn uchder ac ni fydd yn cynnwys y gair "cab" na "tacsi". Ni fydd unrhyw arddangosiad ar y ffenestr yn tarfu ar weladwyedd nac ynperyglu diogelwch.

h) Arddangos yn y cerbyd hurio preifat gerdyn adnabod a ddarperir gan yr awdurdod lleol tu mewn i'r ffenestr flaen sy'n dweud pwy yw'r gyrrwr tu mewn i'r cerbyd.

8. Bydd y perchennog yn hysbysu'r Pennaeth Tai, Gwarchod y Cyhoedd a'r Amgylchedd yn ysgrifenedig o unrhyw newid cyfeiriad yn ystod bywyd y drwydded o fewn saith diwrnod o'r newid.

9. The proprietor shall within seven days disclose to the Chief Housing and Public Protection Officer in writing details of any conviction imposed on him/her (or, if the Proprietor is a company or partnership imposed on any of the directors or partners) during the period of the licence.

10. Os yw'r perchennog yn caniatáu neu'n cyflogi unrhyw un i gyrru'r cerbyd tra trwyddedir ef fel cerbyd hurio preifat, bydd yn gwneud y canlynol cyn i'r unigolyn ddechrau gyrru'r cerbyd:

a) sicrhau bod gan yr unigolyn drwydded gyrrwr hurio preifat a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyngor Wrecsam yn unol ag Adran 51 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.

b) gofyn i'r unigolyn roi ei drwydded gyrrwr hurio preifat iddo hyd nes i'r gyrrwr roi'r gorau i yrru'r cerbyd.

11. Bydd y perchennog yn hysbysu'r Pennaeth Tai, Gwarchod y Cyhoedd a'r Amgylchedd yn ysgrifenedig o unrhyw ddamwain sy'n cynnwys y cerbyd cyn gynted ag sy'n ymarferol ac ym mhob achos o fewn 72 awr o'r ddamwain.

12. Bydd y perchennog yn hysbysu'r Pennaeth Tai, Gwarchod y Cyhoedd a'r Amgylchedd yn ysgrifenedig o fewn saith diwrnod o werthu, trosglwyddo neu warediad y cerbyd yn ystod bywyd y drwydded.

13. Bydd y perchennog yn hysbysu'r Pennaeth Tai, Gwarchod y Cyhoedd a'r Amgylchedd yn ysgrifenedig o unrhyw gwyn a wnaed mewn perthynas ag

    a) ymddygiad gyrrwr y cerbyd
    b) cyflwr y cerbyd

    o fewn saith diwrnod.

14 Ni chaniateir i gerbydau hurio preifat ddefnyddio trelars.

15 Gellir gosod blychau to ar gerbydau hurio preifat yn unol ag amodau'r Prif Swyddog Tai a Diogelu'r Cyhoedd fel y diffinnir nhw yn nogfen gofynion y cerbyd.

16 Rhaid i ddeilydd y drwydded roi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu yn ysgrifenedig cyn gosod system TCC yn y cerbyd. Ni fydd systemau TCC mewn cerbydau yn recordio sain, ac mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â thelerau'r Polisi Gosod a Defnyddio Systemau TCC mewn Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat.' Bydd perchennog y cerbyd yn sicrhau bod arwyddion priodol wedi eu harddangos yn y cerbyd, er mwyn iddynt fod yn weladwy tu mewn a thu allan i'r cerbyd yn unol â'r polisi.

GELLIR YSTYRIED TORRI'R AMODAU HYN FEL SAIL GWAHARDD, DIDDYMU NEU WRTHOD I ADNEWYDDU'R DRWYDDED.

**Hawl i Apelio**

**Os teimlwch fod unrhyw un o'r amodau hyn yn annheg mae gennych hawl i apelio i lys ynadon o fewn 21 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r drwydded.**

06/2015